COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU DYNOL, EFFEITHLONRWYDD A CHYDWEITHIO

28AIN GORFFENNAF, 2015

Ystafell 67, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.

2.00pm – 3.15pm

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL	Y PORTFFOLIO
Y Cynghorydd L.M. Stephens	**Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio**

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-

Mrs. L. Evans	**Swyddog Adnoddau Dynol (Strategaeth);**
Mr. M.S. Davies	**Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.**

DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

1. Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

Ar ôl ystyried yr adroddiadau am yr eitemau isod, a chan roi sylw i farn yr Aelodau Lleol a'r rhai oedd a wnelont â'r materion, lle'r oedd hynny'n berthnasol, gwnaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y penderfyniadau canlynol:-

Rhif yr Eitem	Y Pwnc / Penderfyniad
2.	**COFNOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU DYNOL, EFFEITHLONRWYDD A CHYDWEITHIO - 30ain EBRILL 2015** **PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 30ain Ebrill, 2015, gan ei fod yn gywir.**
3.	**<u>CANLLAWIAU YNGHYLCH SAFONAU YMDDYGIAD</u>** Rhoddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y Polisi Urddas yn y Gweithle wedi ei adolygu gan ymgynghori â'r grwpiau profiad cwsmeriaid. Canlyniad yr adolygiad hwn oedd argymell bod y Canllawiau ynghylch Safonau Ymddygiad, yr oedd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wedi cael copi drafft ohonynt, yn cymryd lle'r polisi presennol ynghylch Urddas yn y Gweithle a hynny er mwyn hwyluso datrysiad mwy anffurfiol drwy bolisi Achwyniadau'r Cyngor cyn i'r mater ddatblygu'n gwyn ffurfiol. Ymatebodd y Swyddog Adnoddau Dynol i gwestiynau gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol a nododd nifer o newidiadau awgrymedig i'r polisi. **PENDERFYNWYD, yn amodol ar gynnwys y newidiadau a nodwyd, gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Canllawiau ynghylch Safonau Ymddygiad.**
4.	**<u>POLISI A GWEITHDREFN ACHWYNIADAU</u>** Rhoddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yr oeddid wedi gweld, yn sgil cynnal yr adolygiad uchod o'r Polisi Urddas yn y Gweithle [gweler cofnod 3 uchod], taw'r ffordd orau o ymdrin â chwynion ffurfiol oedd defnyddio Polisi a Gweithdrefn Achwyniadau presennol yr Awdurdod, a oedd wedi ei

COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU DYNOL, EFFEITHLONRWYDD A CHYDWEITHIO

28AIN GORFFENNAF, 2015

	ddiweddaru er mwyn cynnwys cyfeiriad at y canllawiau diwygiedig yn y mannau priodol ac er mwyn ategu'r Canllawiau ynghylch Safonau Ymddygiad. Yna byddai'r diweddariad hwn o'r canllawiau a'r polisi yn cymryd lle'r Polisi Urddas yn y Gweithle. Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y fersiwn diwygiedig o Bolisi a Gweithdrefn Achwyniadau yr Awdurdod. Ymatebodd y Swyddog Adnoddau Dynol i gwestiynau gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol a nododd nifer o newidiadau awgrymedig i'r polisi. **PENDERFYNWYD, yn amodol ar gynnwys y newidiadau a nodwyd, gymeradwyo'r Polisi a'r Weithdrefn ddiwygiedig ynghylch Achwyniadau.**

_____

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU DYNOL, EFFEITHLONRWYDD A CHYDWEITHIO

_____

Y DYDDIAD